YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LIII. HYDREF 1953 RHIF 10

Gan bwy y mae'r Gwirionedd ?

BETH yw Gwirionedd ? Ym mha le y mae'r Gwirionedd ? Gan bwy y mae'r Gwirionedd ?

Dyna rai o'r cwestiynau sydd wedi blino'r oesoedd. Yr oedd yn gwestiwn i'r athronydd Plato ; bu'n gwestiwn i'r diwinydd ac y mae yn gwestiwn i chwi a minnau heddiw.

Gwyddom am fath o wirionedd syml sy'n apelio at bawb, y gwirionedd hwnnw sy'n *wybodaeth gyffredin*, megis pan ddyweder—"Y mae Llandysul yn Sir Aberteifi", neu "Y mae dau a dau yn gwneud pedwar". Efallai nad oes yr un ohonom wedi ymdrafferthu i brofi'r pethau yma drosto'i hun ; yn wir, pa un ohonom sydd wedi trafferthu i brofi'n fathamategol fod dau a dau yn gwneud pedwar, ond fel y gwirioneddau eraill y soniais amdanynt yr ydym yn eu derbyn fel gwirionedd. Nid oes reswm gennym dros amau'r gosodiadau yma ; y maent yn rhan o'n gwybodaeth gyffredin a phawb o'r herwydd yn eu derbyn.

Ar y llaw arall, y mae gwirionedd sydd yn wirionedd i chwi a minnau yn unig, a'r enw ar hwn yw *argyhoeddiad personol.* Y mae hwn yn rhan o'n cymeriad ac yn rhan o'n bod a byddai dyn yn troi yn ei erbyn ei hun wrth ei wadu. Y mae'r argyhoeddiad wedi ymaflyd ynom a rhaid i ni fyw a marw drosto. Un ffordd draddodiadol y sydd o ffarwelio ag argyhoeddiad a hynny yw tröedigaeth a busnes boenus yw tröedigaeth. Clywsom am ddynion yn troi cot, troi ar y wyneb yw hynny weithiau, ond pan fo dyn yn cael tröedigaeth y mae'n troi hyd at ei seiliau. Gwelwn o ystyried fod argyhoeddiad yn rym nerthol iawn—un o bwerau mawr cymdeithas, ond y mae'r ffaith hysbys o dröedigaeth yn dangos nad yw yn yr un dosbarth sicr a gwybodaeth gyffredin. Ac eto ar wirionedd felly y bydd byw dyn a thros wirionedd felly y byddwn yn ymladd ac yn cweryla.

Gadewch i ni ystyried *argyhoeddiad.* Gall fod yn wirionedd i ddim ond un dyn ar y dechrau, un o bawb yn y byd, a'i wirionedd ef yn ennill cwmni o'i gwmpas a chymdeithas i'w amddiffyn a'i gefnogi.

A dyna yw ein sefyllfa heddiw, yr ydym yn byw mewn cymdeithas ranedig, a phleidiau ac enwadau yn dal yn gyndyn wrth eu hargyhoeddiadau personol. I bob un ohonynt y mae safonau arbennig, rhestr o arwyr, cyfrolau o lenyddiaeth a dulliau o weithio. Meddyliwch am Malenkov ar un llaw ag Eisenhower ar y llaw arall. I bob un o'r ddau y mae gwirionedd, i bob un ei gymdeithas ac i bob un ei argyhoeddiad mewn gwirionedd arbennig. Y mae'r ddau yn cytuno ar wirioneddau gwybodaeth gyffredin ond y mae'r ddau yn *byw* ar argyhoeddiadau cwbl wahanol. Eto, fe fydd yr Undodiaid heddiw yn darllen YR YMOFYNNYDD (*gobeithio* !) ac fe fydd yr Eglwyswr yn darllen *Yr Haul*. Ychydig o Eglwyswyr a gâi unrhyw flas yn YR YMOFYNNYDD ac yn yr un modd ni châi'r Undodwr yntau nemor flas yn *Yr Haul*. Nid oes dir cyffredin o dan ein traed er i ni berthyn mwy neu lai i'r un traddodiad.

Hon felly yw'r broblem a'n hwyneba heddiw—beth yw'r berthynas rhwng y gwirionedd sydd yn gafael ynwyf fi ond sydd o ddim gwerth i'm cymydog ? Y mae fy argyhoeddiad (yr hyn sy'n wirionedd i mi), yn drysor amhrisiadwy i mi hefyd ac ni allwn feddwl am fywyd hebddo. Er enghraifft, fy nghred mewn rhyddid i addoli. Ond weithiau fe ddaw amheuon, a'r pryd hwnnw fe welaf fy ngwirionedd bach i yn ddim ond un yng nghanol pethau mawr patrwm eang hanes. Gwn fod eraill sy'n tybio'n hollol wahanol i mi a gwn eu bod yn addoli a byw yng Nghymru heddiw. Sut y mae darganfod y ffordd modd y gall fy ngwirionedd i gyd-fyw â gwirioneddau sy'n rhan mor bwysig o fywydau pobl eraill ?

Y mae sawl dull o wneud hynny ond gadewch i ni yn awr ystyried yr amlycaf o'r dulliau.

Gall dyn droi yn *benboethyn*, yn ffanatic, a chyhoeddi ar bennau tai nad oes un gwirionedd arall heblaw ei wirionedd ef. Y mae pob argyhoeddiad arall yn dwyll trwyadl ! Y mae hwn yn hen ddull ac yn ddull syml iawn ac y mae'r dull hwn ar waith yn bur helaeth yn ein dyddiau ni. Wedi dod i benderfyniad o'r fath un ddyletswydd amlwg sydd gan ddyn a hynny yw, ceisio darbwyllo pawb i'w ddilyn a dod i adnabod *y gwirionedd*. Oni ddônt, wel, aed y set i gyfeirgoll ! Neu, efallai, os bydd gennyf y nerth a'r gallu, byddaf yn gorfodi yn lle cymell ; cosbi yn lle dadlau. Yn sicr, ni allwn ni fel mudiad gymeradwyo'r dull hwn o gyd-fyw mewn cymdeithas.

Meddyliwch am ffordd arall eto o fwrw ati. "*Gadewch lonydd i bawb*" yw arwyddair y ffordd hon. Deil fod barn un dyn llawn cystal â barn dyn arall. Credwn yn y peth a'r peth am i ni gael ein codi mewn dull arbennig ac ymhlith pobl arbennig. A'r canlyniad i beth fel hwn yw, nid goddefiad (*tolerance*) fel y byddem yn tybio, ond cymdeithas farwaidd, statig. Pan beidio un gŵr geisio argyhoeddi arall y mae'r machlud ysbrydol gerllaw. Y mae stori dda i'r cyfeiriad hwn yn y *Dysgedydd* am fis Medi. Meddai Ysgrif-

ennydd Cyngor Cenhadol Annibynwyr America pan ofynnwyd iddo, "Why won't your church unite with mine?"

"*They're not dead enough yet* !"

A oes yn ein plith aelodau sy'n ddigon marw i ddweud, "gadewch lonydd i bawb !" ? A fynnwch chwi gymdeithas o bobl o'r fath ?

Beth am awgrymu ffordd arall o gyd-fyw ? Y gair gorau i gyflwyno'r dull yma yw'r gair Cymraeg *cymuno*—gan gofio'r gair Saesneg sy'n perthyn iddo o bell—*communication.* Y mae testun pregeth i rywun yn y ddau air yma o'i cysylltu ! Ond hyn y carwn ei awgrymu, bod gan ddyn hawl i'w wirionedd a hefyd hawl i'w osod gerbron ei gymydog gan ganiatau yr un hawl i'w gymydog yntau. Ac yn y cyfnewid a'r drafodaeth y mae posibilrwydd cael dealltwriaeth. Y mae gobaith y ffordd hon i gael nid yn unig wybodaeth gyffredin, ond hefyd *Wirionedd Cyffredin.* Yma yn rhywle y gorwedd hen ffydd yr Undodwr ; yr ydym wedi tystio dros lawer o bethau yn ein dydd ond o dan ein croen o hyd y mae'r ffydd yma mewn cymuno ym myd y gwirionedd wedi cadw'n fyw. Gwn mai delfrydiaeth ydyw ond gwn hefyd ei bod yn gweithio pan gaiff gyfle. Y mae'n gofyn am wyleidd-dra mawr, y gwyleidd-dra sy'n ei gwneud yn gwbl anhepgor i'w chlymu wrth y ffydd Gristnogol. Rhaid i ddyn fod yn barod i gyfaddef bai a chyfaddef ei fod yn anghywir weithiau, ac ar yr un pryd y mae'n gofyn gwrolder i sefyll yn gadarn dros egwyddor. Nid oes ond Ffydd fawr a all wneud y cymuno yma yn bosibl, ffydd sy'n dysgu dyn ar ffordd y meddwl agored a thymer gariadus, ffydd a ddywedodd unwaith, *Cerwch eich gelynion.*

Bwndel o Hen Faledi

Gan D. Jacob Davies.

Yn ddiweddar daeth bwndel o hen faledi i'm llaw, rhai mewn llawysgrif ac eraill wedi eu argraffu. Cefais fenthyg y bwndel drwy law fy chwaer o Brengwyn a chredaf mai eiddo hen deulu Ffoshelig o'r un ardal ydynt. Wrth gwrs fe allwn gael o hyd i'r mwyafrif ohonynt mewn llyfrgell go dda ond yr hyn sy'n eu gwneud yn werthfawrocach na chasgliad llyfrgell i mi, yw y ffaith fod y bwndel wedi ei gasglu a'i gadw gan deulu. Y mae yn dangos dull yr hen ddiwylliant yn y fro yn y ganrif ddiwethaf. Efallai bod casgliadau tebyg ym meddiant llawer ohonoch, os felly, trysorwch hwy a gofalwch nad elont ar goll.

Math o lên gwerin a argraffwyd yn helaeth oedd y faled a gwŷr cyffredin gan amlaf oedd yr awduron. Gwerthwyd hwy hyd y

wlad a'u canu mewn marchnadoedd a ffeiriau. Fe ddywed yr Athro Thomas Parry amdanynt, "Apelient at yr hoffter o stori gyffrous sy'n nodweddu'r dyn cyffredin lled-lenyddol ym mhob cyfnod a gwlad, ac at wrthryfel y tlawd yn erbyn ei amgylchiadau. Niferus iawn yw'r testunau, ond gellir eu dosbarthu'n fyr fel hyn : (1) Amgylchiadau'r dydd, rhyfel, heintiau, ac arferion newydd fel yfed tê. (2) Digwyddiadau cyffrous—llofruddiaeth, llongddrylliad neu ddamwain angheuol i rywun. (3) Cŵyn y tlodion yn erbyn drudaniaeth neu brinder bwyd. (4) Ambell farwnad i ŵr neu wraig. (5) Hanes Cymru. (6) Pob agwedd ar serch rhwng mab a merch. (7) Testunau Crefyddol. (8) Gwersi moesol &c."

Y mae'r dosbarthiad yma yn ddarlun go dda o'r bwndel a ddaeth i'm dwylo innau ac wrth ei trin a'u troi gallwn ddychmygu gweld un o'r hen werthwyr baledi yn cerdded drwy'r fro gan alw yn y Ffoshelig ar ei daith. Dafi Llandudoch neu Dafi'r Llyfre yw ei enw, ac fe ddaw ar ei gylchdaith yn ddyn mawr, cefngrwm a phac anferth ar ei gefn. Y mae'n llwybro'n araf o le i le fel camel dynol ac y mae'n barod i agor ei becyn i blentyn a gwas fferm. Y mae'n ddyn gofalus dros ben am ei faledi a phob bwndel wedi ei lapio mewn chwech neu saith o gadachau, rhag ei wlychu, wrth gwrs. A hyd yn oed pan na fyddai neb yn agos i'w glywed y mae'n mwmial y teitlau wrtho'i hun, "Y Blotyn Du, Y Ferch o'r Scer, Morgan Bach yn mynd a dod, Hannah Dafis o Blwy Pencarreg . . . a bob hyn a hyn y mae yn ail adrodd hen rigwm o'i eiddo,

"Hm . . . Hm . . . Ho . . . Ho . . .
Aeth heddiw heibio fel y ddo".

Cyrraedd y Dyffryn erbyn nos a'r hen wraig garedig yno yn ceisio'r tebot cynhaeaf gwair i'w ddisychedu. Dywedir y gallai Dafydd yfed tri galwyn o dê ar un eisteddiad ! Ond beth sy yn ei bac tybed. Dewch i ni gael gweld. Ydyw y mae Morgan Bach wedi dychwelyd o Awstralia ! Gwrandewch ar ei fam yn disgwyl amdano :

'Nawr mae f'arian bron a darfod,
'Rwyf mewn trallod fwy na mwy,
O ba le disgwyliaf ymborth,
Heb gael cymhorth gan y plwy ;
Rhaid fydd mynd i'r Workhouse newydd,
Anfoddlonrwydd sydd yn awr,
Os ymadael wnaf o'r Gyrnos,
Gwn na phery f'einioes fawr.

Ond y mae Morgan yn dod a llond ei bocedi o arian ac nid oes nemor o wahaniaeth rhwng ei stori a'r stori a gewch yn y *News of the World* am ŵr yn ennill y Pŵl Ffwtbol. Digon tebyg hefyd yw'r hanes am y llofruddiaeth yn Blackburn, lle mae geneth fechan saith

mlwydd oed wedi ei lladd "gan fwystfil o ddyn o'r enw William Fish" :

"Yr wythfed ddydd ar hugain o Fawrth, bydd cofio hir
O fewn i ardal Blackburn, y dref bu'r creulawn gur ;
Y dydd y cafodd Emily ei thorri'n ddarnau mân,
A'i threisio gan y barfwr, y bradwr drwg ei rân !"

Down at gân ar safon ychydig yn uwch yn y faled am "Garwriaeth Nant yr Odyn",

Tra byddo calon dan fy mron,
A thra bo llong yn hwylio,
Tra bo daear dan fy nhraed,
A thra bo ngwaed yn treiglo,
Tra paro'r haul a'r siriol ser,
Tra treiddio mer trwy'm hesgyrn,
Mi gara'r ferch sy'n byw mewn pant
Yn ymyl Nant yr Odyn".

Ond mewn cân arall nid yw'r carwr mor sicr o'i bethau ac y mae ei amynedd yn dechrau dod i ben,

"Mi rentais dŷ yn barod
Gan dybio'th fod yn dyfod.
Y celfi sydd yn sbwylo
O eisiau cael eu iwso,
A'r gwely pluf yn llwydo
O herwydd i ti'm twyllo . . ."

A beth am wrthryfel y tlawd. Oes, y mae gennym gân ar hynny hefyd—

Pa beth a welaf ?—Gweithiwr draw,
A chaib a rhaw mewn rhych,
A phwys a thristwch byd a'i wg,
A'i gwnaeth yn ddrwg ei ddrych . . .

Gan yr Uchelwr mae ei barch
Yn ail i farch neu ful ;
Pob un yn cerdded hyd ei ben,
Ail pontbren ceubren cul ;
A phlant ei feistr cyd a'i goes
Rydd iddo loes neu lach ;
Ond caiff Nos Sadwrn gartre'i hun,
A bod yn Frenin Bach".

Cawn ddarlun o galedi mewn baled arall o'r un ansawdd sef eiddo Maria Williams a ganodd Glod i Blwyf Llandysul. Argraffwyd y gân hon fel llawer un arall o'r bwndel gan Marsden o Lanbedr. (A oedd yn berthynas i Marsden Rhydybennau ?).

Rhyw fendith anhraethadwy
Boed hysbys hyn i chwi,
Mae yn Llandysul syrthiodd
Fy nghoelbren union I ;
Ym mysg y dynion goreu
A welais I erioed—
'Rwy'n dwedyd ar rai prydiau
Nad oes eu bath yn bod.

Bu arnaf yn drafferthus
Wrth fagu'r plantos mân,
'Roedd chwech neu saith yn prancio
Fel ŵyn o gylch y tân ;
Y bara oedd yn darfod
Yn fynych yn y tŷ,
I ble y trown fy ngwyneb
Yn glau ond atoch chwi ?

Ni ches erioed ddychwelyd
Yn waglaw atynt hwy—
Pa fodd y gallaf beidio
A chanu i'r fath blwy ?
Chwi fedrwch gydymdeimlo
Ac estyn llaw yn llon ;
'Rwy'n credu mai Llandysul
Yw gardd y deyrnas hon".

Ac yng nghwdyn Dafi yr oedd "Cân yn dangos fod Iesu Grist yn Dduw", ond y mae'n debyg fod honno ar y gwaelod wrth alw gyda'r Sosin !

Ddaeth barn y Dwyfundodiaid erioed o uffern, clyw,
Maent yno'n rhwym o gredu fod Iesu Grist yn Dduw,
Ac yn y nefoedd olau, diamau nad oes un
Ar nad yw'n moli'n wastad y Duwdod yn y dyn.

A dyma'r gân a gynigid i'r Dwyfundodwr, cân Evan Llewelyn,

"Ymadrodd tra rhyfeddol,
Wnai Ddofydd hollbresenol ;
Guddio'i hanfod maith ei hun,
Mewn baban un o'i bobol.

A chrewr byd mewn dirmyg,
Ar bren yn groeshoeliedig ;
Effeithiau brwd syniadau brau,
A chamwedd gau ddychymyg.

Hwn ydyw'r un cyntefig,
Orchymyn doeth arbennig ;
Ein Harglwydd Ior, un arglwydd yw,
Efe sydd Dduw yn unig.

Addoler ef yn ddiwall,
A'r ysbryd ac a'r deall ;
Ac a'r holl galon dyna'r wers,
Nid unrhyw berson arall".

Ond beth bynnag am berygl y cerddi crefyddol nid oedd berygl yn y byd y byddai gwraig y tŷ yn gwrthod y gân ar y "Gini Melyn Bach". Ynddi ceir gwraig yn rhoi cyfrif am yr arian a wariodd ac fel arfer y mae'n gyfrif trwyadl iawn. Y mae un-pennill-ar-ddeg yn y gân gyfan a rhown rhyw flas ohoni yn unig yma.

Chwi bobl briod dowch yn nes
Gwrandewch fy nghân fel gwir
Tebygol yw y gwnaiff hi les
Ni wnaf eich cadw'n hir.
'Roedd crefftwr da yn byw mewn tre
Oedd am gael pethau'n iawn,
Dydd Llun diwethaf galwai' wraig
Gan ddweud rhowch gyfrif llawn.

Pan alwai ar ei wraig fel hyn
Dychmygu gellwch chwi
Medd ef, f'anwylyd, tyrd a dwed
Ble'r aeth fy arian i ?
Bob wythnos gini 'rych yn gael
Tri phlentyn feddwn oll
Er hyn mae nghyflog bron i gyd
I rywle'n mynd ar goll.

Os ych am wybod hynny gewch
Yn serchog ebe hi
Mae hanner coron llawn o rent
Bob wythnos am y tŷ.
Tri swllt a chwech am fara'n mynd
Cewch glywed eto fwy—
Am siwgr menyn coffi te
'Rwy'n talu dau a dwy.

Deg ceiniog glo a chwech am goed
Nodwyddau pinnau bach,
Sebon ac edau cotton balls
Aiff naw a dimau'n iach.
Aeth tri a chwech yn grwn am gig
Am datws deuswllt aeth,

A thair a dimau eto at hyn
Am hufen gwyn a llaeth.

Bob bore at eich brecwast rhaid
Im gael rhyw beth neu fwy
a phwys o stêcs bob wythnos gawn
A mynych iawn mae dwy.
Gwna hynny ddeunaw ceiniog llawn
Mewn pang hi roddai bwff
Tobaco yn naw ceiniog sydd
A thair a dimau'r snwff.

* * *

Medd hi, yr ych yn fanwl iawn,
O peidiwch bod yn gas
Mae tair a dimau eto'n mynd
Am soda starch, lliw glas.
A pheint o gwrw'i chwi bob dydd
Ond te ni fyddwch iach,
Dowch rhifwch nawr pa faint sy nol
O'r gini melyn bach.

Wel nawr, medd ef, boddlongar wyf
Ar cyfri'n llawn heb goll,
Ond methu deall rown o'r blan
Ble'r ai yr arian oll.
Anaml ceir un gwr o gant
Wyr draul i gadw ty,
O'r diwedd ces foddlonrwydd llawn
Ble'r aeth fy arian i.

A dyna'r bwndel i gyd bron heblaw'r pethau sy'n dal yn weddol gyfarwydd o hyd. Nid drwg fyddai cael ambell bacmon llyfrau i gerdded y wlad yn ein dyddiau ninnau, oblegid ofnaf nad oes dim ond bwndeli o ffurflenni llaeth ar ffenestr gegin fach y rhan fwyaf o'n ffermdai heddiw.

Y PARCH. DAVID EVANS, CRIBYN.

Englyn Coffa.

Ei fyw goeth ysgrifau gant—a erys
I arwain diwylliant ;
Dwys, syber a di-seibiant
Oedd ei sêl,—ail Ddewi Sant.

Llwynbedw. G. Morgans.

Diwinyddiaeth y Testament Newydd

Gan JOHN L. WILLIAMS, Pengam.

II.

FEL y gwelsom yn ein hysgrif ddiwethaf, y mae'r Athro Bultmann yn y bennod gyntaf o'i lyfr, *Diwinyddiaeth y Testament Newydd*, yn dysgu fod Esgatolaeth yn rhan bwysig o genadwri Iesu o Nasareth. Hynny yw, i Iesu ragfynegi agosrwydd dyfodiad Teyrnasiad Duw mewn modd cosmig a gwyrthiol gan ddwyn i ben yr oes bresennol, a sefydlu un newydd. Er i'r disgwyliad hwn droi allan yn lledrith, cred Bultmann fod drychfeddwl o'r fath yn gyfrwng addas i fynegi syniad arbennig Iesu am Dduw. Ceisiwn felly grynhoi mewn ychydig frawddegau, yr hyn yn ôl yr athro oedd idea Iesu am Dduw—yr idea a rydd ystyr a gwerth i'r fframwaith apocalyptaidd. Yr oedd gan Iesu yr ymwybyddiaeth broffwydol o Dduw ; sef Duw yn Ei Frenhiniaeth, Ei uwchfodaeth, a'i Ewyllys Absoliwt. Yn ei berthynas â Duw y penderfynir tynged dyn. Ni all dyn osgoi cyfle'r dewis sy'n dyngedfennol. Golyga'r dewis un ai iechydwriaeth neu farnedigaeth. Treiddir bywyd dyn ag argyfwng. Y mae argyfwng yn nodweddu nifer o ddamhegion Iesu. Rhoesai'r ymwybod hwn i Iesu ymdeimlad o ddiwedd amser. Yng ngoleuni Duw gwelai ef y byd a'i bethau yn eu breuder, a bywyd dynol yn ddiddim. Ond i Iesu hefyd Creawdwr a Chynhaliwr yw Duw—yr Un sy'n llywodraethu'r byd â'i ofal, gan borthi'r anifeiliaid ac addurno'r blodau. Nid oes gwahaniaeth hanfodol rhwng syniad Iesu am Dduw, a'r Hen Destament ar ei orau. Ond ar y cyfan, yn nechrau'r ganrif gyntaf, ' un ar drai ar orwel pell ' oedd Duw. Yr oedd yn uwchfodol a phell, ac anodd oedd olrhain Ei weithgarwch. Ond i Iesu, Un agos yw Duw. Ef yw'r gallu sydd yma ac yn awr, yr Hwn fel Arglwydd a Thad sy'n cwmpasu dyn, gan gyfyngu arno a'i orchymyn. Parodd y Gyfraith a Thraddodiad agendor rhwng ewyllys Duw a dyn. Yn ôl Iesu gall dyn wybod yn uniongyrchol beth a ofyn Duw yn ei ymwneud â'i gymydog. Yno y cyferfydd â Duw yn Ei Gymeriad a'i Farn. Y mae maddeuant hefyd gyda Duw, a pharodrwydd gwastadol i groesawu'r edifeiriol. Pair edifeirwch dwys lawenydd i Dduw, a phrawf o wirionedd maddeuant yw y galon faddeugar. Nid rhaid wrth yr hir-weddiau a ddysgid gan Iwdeaeth. Ychydig oedd geiriau'r publican edifeiriol â'r mab afradlon, ond cawsent y fendith. Rhagora Gweddi'r Arglwydd yn ei chyfarchiad syml a'i chynnwys cryno ar y gweddiau amleiriog Iddewig. Caf fy hun yn anghydweld â Bultmann pan ddywaid na feddyliai Iesu am farn Duw yn dyfod ar gymdeithas o bobl, ond

bob amser ar yr unigol. Gwir ydyw y pwysleisiai Iesu werth yr unigolyn a pherthynas bersonol â Duw, er hynny y mae sail i gredu iddo ragfynegi trychineb i'r Iddewon, ac y dinistrid Ierwsalem a'r deml. Yn hyn yr oedd yn gyffelyb i'r proffwydi gynt a welai farn Duw ar y genedl yn y perygl oddi wrth Asyria a Babilon. Nid rhywbeth goruwchnaturiol oedd rhagweld y gwrthdaro posibl rhwng Rhufain a'r Iddewon, ond craffter Iesu i ddehongli tuedd boliticaidd ac economaidd ei oes. Ceisiai Iesu ennyn edifeirwch cenedlaethol a dwyn ei gyd-oeswyr dan frenhiniaeth Duw, ond methodd, a chwerw oedd ei siom. "Pa sawl gwaith y mynaswn gasglu dy blant ynghyd, fel y casgl iâr ei chywion dan ei hadenydd, ac nis mynnech". "A phan nesaodd a gweled y ddinas, wylodd drosti, gan ddywedyd, 'O na wybuasit tithau y dydd hwn y pethau a berthyn i heddwch'."

Yn sicr fe anghytuna llawer â Bultmann pan ddywaid mai digwyddiad diwethafol oedd dyfodiad Teyrnas Dduw yn ôl dysgeidiaeth Iesu. Cawn weld yn nes ymlaen beth a olygir wrth ddyfodiad Mab Dyn, ond nid ymddengys i Iesu gysylltu dyfodiad y Deyrnas ag apocalyptiaeth, ac ni wnaeth hynny yn gyfystyr â diwedd y byd. Os caniateir i Iesu gyhoeddi fod Teyrnas Dduw wedi dyfod ac y gallai'r edifeiriol fyned i mewn iddi, yna y mae Bultmann yn cam-esbonio cenadwri Iesu. Bodlonwn ar ddyfynnu ychydig ddywediadau : "Gwyn eu byd y tlodion eu hysbryd, canys hwynthwy biau Deyrnas Nefoedd". "Gedwch i'r plant bach ddyfod ataf fi ; peidiwch â'u rhwystro ; canys rhai fel hwy biau Deyrnas Dduw. Yn wir meddaf i chwi, pwy bynnag ni dderbynio Deyrnas Dduw fel plentyn bach, nid â byth i mewn iddi". A chyhuddiad Iesu yn erbyn yr athrawon Iddewig oedd eu "bod yn cloi Teyrnas Nefoedd yn erbyn dynion, canys chwi nid ewch i mewn â'r rhai sydd yn ceisio myned i mewn ni edwch iddynt fyned". Y mae amryw ddywediadau eraill sy'n dangos yn eglur i Iesu ddysgu nid yn unig y deuai'r Deyrnas ond ei bod eisoes yn ffaith yn y presennol, ac y gallai dynion o anian edifeiriol a ffyddiog fyned i mewn iddi. Anodd credu mai lledrith oedd hyn, ac am hynny, cytunaf â'r Dr. C. H. Dodd pan ddywaid, "Mewn rhyw ystyr, pan ddaeth Iesu, fe ddaeth y Deyrnas, ac yr oedd yn ffaith ynddo ef". Os gofynnir, beth a olyga hyn?, buaswn yn ateb, Oherwydd yr anian fabol yn Iesu tuag at Dduw, a'i ufudd-dod perffaith i'r ewyllys Ddwyfol. Yr oedd ef felly, yn anad neb, yn llestr dynol cymwys i'r Frenhiniaeth Ddwyfol dabernaclu ac yn gyfryngwr addas i'r ewyllys rasol a datguddiadol weithio a llewyrchu. Y mae gan Bultmann hefyd syniad a'm tery i fel yn un od iawn, sef, na chyhoeddodd Iesu Deyrnas Dduw fel moeseg i ddiwygio'r byd, ac nad cywir esbonio dyfodiad y Deyrnas fel goruchafiaeth y Da ym meddwl dyn yn ffurfio cymeriad newydd.

Ymddengys imi os hanfod Teyrnas Nefoedd ydyw gorseddu Duw yn y galon yna, canlyniad hynny yw ymarweddu fel plentyn Duw tuag at eraill. Y mae'n afreidiol dyfynnu adnodau. Er mor dreiddgar a chynhwysfawr yw rhai o sylwadau Bultmann ar genadwri Iesu, yn arbennig ei grynodeb o brotest Iesu yn erbyn arwynebedd a defodaeth llawer o'r Phariseaid, eto â siom y sylwn ei fethiant i ddangos y genadwri yn *setting* cenhadaeth hanesyddol Iesu. Ac felly ffaela i egluro cwrs yr amgylchiadau a arweiniodd i groeshoeliad Iesu. Er prined ydynt, y mae defnyddiau digonol i wneud hyn yn yr Efengylau. Oherwydd hyn y mae Bultmann yn anabl i ddangos yn foddhaol sut y bu i Iesu ddyfod yn gyfrwng datguddiad ac yn wrthddrych gwerthfawrogiad i'r Eglwys Fore. Mewn geiriau eraill, metha ag egluro sut y bu i'r Cristionogion Cyntaf ddechrau llunio diwinyddiaeth o gwmpas person y Proffwyd o Nasareth.

Thomas Huws Davies (1882—1940)

Gan y Parch. J. Seymour Rees.

Awyddoch chwi am bentrefo'r enw Penuwch yng Ngheredigion? Oni wyddoch, mi dyngaf lw na chawsoch erioed y fraint o wrando ar T. Huws Davies yn ei hamdden wrth adrodd ei brofiadau. Ni fedrai ef, mewn hwyl, osgoi eich swyno â'i ddisgrifiad manwl o'r fangre, a nodweddion ei thrigolion.

Tynnai ei ddarluniau ddŵr o'r dannedd am ymweled a'r ardal ryfedd hon.

Onid oedd yn ddarn o Dir na n-Og?

Pe digwyddech gael eich dymuniad, deuech at gorun moel y Mynydd Bach, i ganol bro'r mawn a'r grug a'r eithin, rhwng Tregaron a Bae Aberteifi.

Os diffrwyth yw'r tir, ac heb geinder, eto y mae cartrefi enwog yn agos.

Nepell, y cafwyd crud i Ddaniel Rowland, y diwygiwr o Langeitho. Dacw Ystrad Meurig a Lledrod ar gyfyl i ddwyn ar gof Edward Richard a Ieuan Brydydd Hir, beirdd ac ysgolheigion o gryn bwys. Ac onid yw Tregaron wrth ymyl i ymfalchïo yng ngyrfa Henry Richard, Apostol Heddwch?

Yn wyneb hyn oll, a molawdau dihysbydd Huws Davies, mi dybiaf yn sicr mai siomedig a fyddwch wrth gerdded drwy'r darn gwlad hwn. Na chondemnier ef am ei frwdfrydedd. Ni fwriadodd eich twyllo. Yn hytrach mynegodd ei deimlad gwresog am fro ei febyd. Yno, mewn bwthyn llwm, ar fin tlodi cyson y trefnwyd iddo gan amgylchiadau angharedig i'w famgu ei fagu trwy egnïon gorau ei natur.

Gwraig arbennig, ar lawer cyfrif, oedd Siân Huws. Meddai ar wydnwch corff a meddwl a chymeriad. Er iddi gael deg o blant, ymdaflodd ei nodded yn dyner dros yr ŵyr bach hwn hefyd. Prin oedd ei hadnoddau, ond treuliodd flaenau ei bysedd i ddwyn deupen llinyn ynghyd.

Aeth Huws Davies i ysgol ddyddiol y pentref dan gyfarwyddyd prifathro dawnus, Emlyn Jones, a fu mewn blynyddoedd diweddarach yn weinidog yr Efengyl. Ar derfyn ei gyfnod bu'n ddisgyblathro nes cael llwybr agored i fynychu'r Ysgol Sir yn Nhregaron. Clod i'r ardalwyr am eu gofal i gynnal darlith gyhoeddus i'w gynorthwyo yn ei antur.

Yno, bu'n ddigon ffodus i ddod dan lygad craff un o'r athrawon, Mr. W. J. Waterhouse. Er mai Gwyddoniaeth oedd ei bwnc, eto ymhoffai mewn Llenyddiaeth. Daeth y llanc o Benuwch yn hoffus ganddo i gasglu ffafrau. Rhannwyd cyfaredd o'r clasuron Saesneg, a thyfodd y ddau yn gyfeillion mynwesol.

Erbyn y flwyddyn 1901 enillodd Huws Davies ysgoloriaeth, agored i dair Sir, i'w arwain i Goleg Aberystwyth. Y farn gyffredin oedd mai wynebu ar y weinidogaeth ymysg y Methodistiaid Calfinaidd a wnai. Onid oedd hynny'n naturiol i Gymro o'i oes ef, a'i amgylchiadau? Cofier hefyd y disgynnai o linach y Parch. James Hughes, "Iago Trichrug", yr esboniwr adnabyddus yn ei ddydd. Ar y pryd hwn, adweinid ef fel pregethwr addawol ei ddawn. Enillai boblogrwydd cyffredinol yn Eglwysi'r cylch, a dyfernid y byddai iddo safle uchel ym mhulpud ei enwad.

Er synod i ddyfalwyr, ceir Huws Davies yn cychwyn ei gwrs trwy ddilyn Fferylliaeth a Mathemateg. Ymddengys y ddau gyfeiriad yma yn ddieithr i fyfyriwr o'i chwaethau cynhenid ef. Paham y dewisiad? Yn wir, nid oes ateb boddhaol. Cyfaddefai yntau na theimlai nemor archwaeth at y naill destun na'r llall. Yn oriau ei hamdden ymserchai'n bennaf mewn rhyddiaith Saesneg.

Amlygodd ei hun yn gynnar fel aelod o brif gymdeithasau'r Coleg, ac yn frwd o blaid mudiadau'r myfyrwyr ym mhob cyfeiriad. Bu'n ddadleuwr cyndyn, ac yn hoff o ddarlithio ar wahanol bynciau, a datblygu'n siaradwr huawdl.

Daeth Huws Davies i ddiwedd ei gwrs dieithr mewn modd rhyfedd, yn 1905. Ychydig cyn yr arholiad mewn Mathemateg yn 1904, digwyddodd i un o'i gyfeillion cywiraf foddi wrth ymolchi yn y môr. Achosodd yr alanas hon gymaint arno nes ei daflu oddi ar ei echel, a methu yn y praw. O'r herwydd, collodd ei radd er sicrhau anrhydedd yn yr ail ddosbarth mewn Fferylliaeth.

Ers dwy flynedd, bu ei famgu annwyl farw gan ei adael yn ddigartref. Mewn penbleth, casglodd ei ychydig arian ynghyd i anturio ar siwrnai seithug tua Llundain heb yr un argoel am foddion cynhaliaeth.

Er iddo ddal i bregethu'n dderbyniol iawn nid oedd ei fryd ar y

weinidogaeth. Ceisiodd ennill ei docyn mewn llawer modd. Daeth ei waredigaeth yn 1906 pan gymeradwyodd Syr Vincent Evans ei enw i aelodau o Gomisiwn Brenhinol a drafodai helynt yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru. Dechreuodd fel clerc i ddringo'n ysgrifennydd cynhorthwyol. Ynglŷn â'r mudiad hwn daeth i ffafr yr Arglwydd Farnwr Vaughan Williams, gŵr cydnaws â'i chwaethau.

Pan gymeradwyodd y Comisiwn Ddatgysylltiad tua 1911, gwahoddwyd Huws Davies i'r Swyddfa Gartrefol fel ysgrifennydd preifat dros dro i Mr. Reginald McKenna. Yn fuan wedi dechrau'r rhyfel yn 1914, denwyd ef i fod yn ysgrifennydd i Gomisiwn yr Eglwys Esgobol yng Nghymru. Caled fu iddo ffarwelio â Mr. McKenna gan y mynnai hwnnw iddo barhau yn ei swyddfa ef. Gwyddai ef fwy am gynnwys y ddeddf newydd na neb arall, ac felly y cefnodd.

Er i'r swydd fod yn un anodd, llwyddodd i'w llanw'n llwyddiannus trwy graffter a doethineb i ennill ymddiriedaeth. Ar y cychwyn bu llawer o gynnwrf yn y gwersyll, ond effeithiodd ei hynawsedd a'i wybodaeth yn amlwg i dawelu'r terfysg. Sicrhaodd hefyd gydweithrediad Mr. Frank Morgan, ysgrifennydd dros Gorff Llywodraethol yr Eglwys. Gwasanaethodd yn ei swydd a graen i osod urddas ar ei waith hyd ddiwedd ei oes.

Nid gŵr a lafuriodd mewn un cylch yn unig fu T. Huws Davies. Dringodd dros ben y terfynau i feysydd Llenyddiaeth. Ysgrifennodd yn helaeth i'r *Times* a'r *Times Educational Supplement* a *Wales* (J. Hugh Edwards). Golygodd dros gyfnod dri chylchgrawn. Dechreuodd trwy ofalu am *Y Wawr*, at wasanaeth Cymry'r Brifddinas. Wedyn, llywiodd y *Welsh Outlook* yn groyw ei gri dros heddwch, addysg a gwleidyddiaeth. Gofalodd am neges *Llawlyfr Cymdeithas Ceredigion Llundain.* O'r un olaf saif pedwar rhifyn a ddengys ei allu neilltuol. Tlws odiaeth yw ei ' gyffes ffydd ' hon : "Amcan cyntaf Cymdeithas Sir yng ngwlad estron ydyw cadw'n fyw a dwyshau serch ei phlant at fro eu genedigaeth a'u tyfiant bore, ac at ei hen fywyd a'i diwylliant naturiol a thraddodiadol . . . gwarchod a diogelu tegwch y Sir, ei chyfrinion, ei hiaith a'i hanes godidog, ei chysegrleoedd a'i thrysorau syml".

* * *

Nid gormodiaith yw tystio bod Huws Davies yn ŵr amryddawn i raddau arbennig. Yn wir, wrth adolygu hanes ei fywyd, priodol yw dweud y medrai wneud llwyddiant o'i egnïon mewn llawer cylch.

Maentumia rhai o'i gyfeillion agosaf mai fel Athro mewn Coleg yr addaswyd ef orau. Dywedwyd o blaid y dyfarniad hwn mai caffaeliad pwysig fyddai ei gyfeillgarwch i greu ysbrydiaeth ac ymddiriedaeth. Medrai dynnu ei ddisgyblion ato i'w cyfeirio'n ddoeth.

Oni fedrai ef feddu lle yn rheng flaenaf pregethwyr ei oes ? Yr oedd ei barabl yn esmwyth a llithrig, ei gorff yn lluniaidd, ei lygaid

yn swynol dros ben, ei lais yn felodaidd ac ystwyth, a'i wyneb yn barod ar amrant i fynegi teimladau gwahanol. At hyn, byddai ei ysbryd caredig, ei graffter a'i ddoethineb yn gyfryngau gwerthfawr iddo fel gweinidog ar Eglwys.

Testun syndod yw na chyffrowyd ef at wleidyddiaeth, a cheisio sedd yn Senedd ei wlad. Meddiennid ef ag egwyddorion brwd y medrai eu cyflwyno ag angerdd ei argyhoeddiad. Gwyddai hefyd am ffyrdd dirgel i ennyn diddordeb ac edmygedd yr etholwyr.

Beth pe dewisai Huws Davies lenyddiaeth yn faes priod i'w wasanaeth? Wrth droi tudalennau'r rhifynnau a olygodd ef o'r *Welsh Outlook* onid oes yma brofion amlwg o'i allu? Naturiol ac atyniadol yw ei arddull gain: cryf yw'r neges bendant, a manwl yw ei feirniadaeth wrth estyn adolygiad. Gofalus oedd i gadw trefn, er iddo unwaith ysgrifennu at gyfaill: "Dyn anniben ydwyf—yn bennaf am fod yn rhaid i mi geisio bod yn drefnus yn swyddfa'r gaethglud yma".

* * *

Wrth feddwl am farwolaeth T. Huws Davies bydd pawb o'i gyfeillion yn gofidio am na chadwodd un addewid a wnaed iddynt droeon i gyhoeddi cyfrol o'i waith. Oni fedrai ei ddawn lunio nofel gampus yn delio a bywyd cefn gwlad yng Nghymru? Medrai ef osod Penuwch, y cymeriadau difrif a digrif, yr hen arferion, a'r llen-gwerin ar glawr yn dreftadaeth i'r dyfodol. Heddiw ymofidiwn oll yn ein colled gan leddfu ein siom wrth wledda ar atgofion amdano.

Os peidiodd ag eistedd i osod ardal ei faboed mewn cyfrol, ni'n rhwystrir ni i gofio amdano yn nyddu ei gynhyrchion ar ei draed mewn araith a darlith.

Pwy sydd a glywodd Huws Davies yn traddodi ei anerchiad fel Llywydd i Gymdeithas Ceredigion yn Llundain, na chyfrif hwnnw yn gyfoeth amhrisiadwy?

Dewch i Ginio Flynyddol y Gymdeithas ar Fawrth 31, 1938. Ar yr achlysur hwn y gŵr gwadd oedd yr Athro T. Gwynn Jones. Er i Huws Davies fod dan gystudd dros fisoedd, ymdrechodd ef, fel cyfaill cynnes ac edmygydd o'r bardd, gyrraedd i lywyddu. Safodd ar ei draed yn dwyn olion amlwg o'i afiechyd. Yn fuan, daeth asbri i'w feddu a'i gyffro i dynnu ei ddarluniau. Bu ei frawddegau yn llawn hiwmor ac atgofion. Gogleisia nes peri chwerthin â'i eiriau addas, a bachog, weithiau. O dipyn i beth newidia i estyn cyngor doeth wrth athronyddu. Yn raddol, llywiodd tua'r terfyn gan gasglu nerth i ddringo copa ei araith. Erbyn hyn aeth y llais melysber i ymson yn dyner. Daeth dieithrwch i'w lygaid wrth syllu i bellter, a golau pell i'w drem, weithiau.

Dyma ef, weithian wedi cyrraedd Penuwch, a cherdded dros drothwy'r bwthyn cysegredig i eistedd a mwynhau orig yng

nghwmni ei famgu ddelfrydol. Clywch ei frawddeg olaf mewn goslef unsain sy'n llifo'n araf : "Beth 'wedse'r Hen Wraig pe gwelse hi fi yma heno, yn y Gymdeithas hon, fel hyn, yn fy ngwasgod wen ?"

Huws Davies ! Gwyliai Sian Huws di ar yr amgylchiad hwn, fel ymhob man arall, a balchter ei henaid.

Marwgof

Bu farw ELIZABETH MARY WILLIAMS yng Nglasfryn, Pontsian ar yr 28ain o Awst. 50 oedd ei hoed, ac er iddi fod am ychydig yn yr Ysbyty i gael triniaeth at ei dolur, ni thyciodd ddim. Bu'n fam dyner, ac yn gymydog hawddgar, ddisonamdani. Gadawodd briod a theulu yn friw iawn eu calon o'i cholli. Bu'r angladd yn Llwynrhydowen ar y 1af o Fedi, a'r Parchn. J. Marles Thomas, Dewi Jones, M. D. Jones, A. J. Martin a Watcyn Davies yn gwasanaethu.

Bonheddig fwyn gymdoges—un radlon
O anian ddirodres ;
A gwn y caiff hi loches
Dan adain Duw yr hwn a'i rhoes.

G.D., Cletwr Villa.

Newyddion yr Enwad

RHODD I'R "YMOFYNNYDD".—Diolch yn fawr i'r Parch. James Davies, y Mans, Moneyrea, Belfast am gofio amdanom unwaith eto drwy gyfrannu £1 at yr achos. Credaf y dylid talu'r ffordd eleni os cawn ychydig o gyfeillion eto i gofio cyn Nadolig.

HEN DY CWRDD ABERDÂR.—Cynhaliwyd Cyrddau Diolchgarwch y capel uchod eleni ar y Sul, 27ain o Fedi. Y Parch. Aubrey Martin o'r Llwyn a'r Bwlch oedd yn gwasanaethu mewn tair oedfa ac yr oedd arddeliad ar ei bregethu. Addurnwyd y capel yn ddestlus gan y gwragedd, a chafwyd hin dda i hwyluso'r holl drefniadau.

HIGHLAND PLACE, ABERDÂR.—Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yma ar yr 20fed o Fedi i ddathlu wythfed mlynedd y Parch. D. Jacob Davies fel gweinidog yr eglwys. Manteisiwyd ar y cyfle i ddosbarthu taflenni yn gwawdd trigolion stâd newydd a godwyd nepell o'r capel i ymuno â'r gynulleidfa. Yr oedd y capel yn llawn ac fe arhosodd trigain a deg i gael cwpaned o de cyn mynd adref. Derbyniodd y gweinidog anrheg sylweddol drwy law Urdd y Benywod. Canwyd caneuon pwrpasol at yr achlysur gan ddwy efeilles

ifanc (gor-wyrion "Dai o'r Nant" un o arweinwyr enwog y gweithwyr yn y cwm) sydd newydd ymuno â'r eglwys. Testun pregeth Mr. Davies oedd, "Eiddot ti yw y deyrnas a'r nerth a'r gogoniant" ac fe'i cyhoeddwyd yn y papur lleol yr wythnos wedyn.

Y Cwpwrth Llyfrau

Cerddi Crwys (Detholiad), Cyfrol I. Gwasg Aberystwyth, 93 tud., pris 5s. Bu *Cerddi Crwys*, pedwar casgliad ohonynt, allan o brint ers tro bellach, ac er iddynt werthu wrth y miloedd y mae galw cyson amdanynt o hyd yn ôl yr hanes. Nid ail-argraffiad o un o'r cyfrolau hynny mo'r llyfr hwn, eithr detholiad o bethau gorau'r cyfrolau a'r awdur ei hun a fu'n dewis. Y mae hwn yr union beth y bu llawer ohonom yn disgwyl amdano, oblegid er i ni'r dôweddol-ifanc ddarllen ei gyfrolau cynnar i gyd, eto yr oeddem yn rhy ifanc i brynu copi. Y mae copi yn yr hen gartref wrth gwrs ond ni cheir rhieni sy'n caru eu plant i'r graddau o fod yn barod i ymadael â *Cherddi Crwys*. A dyma i chwi beth arall go ryfedd ; er i mi loffa a chwilio llawer mewn siopau ail-law, ni welais gopi o un o gyfrolau Crwys ynddynt erioed. Na, rhyfyg fyddai trin Cloch y Llan a'r Border Bach yn ddi-brisiol ! Ac yn y gyfrol yma fe gawn yr hen ffefrynau i gyd gan gynnwys y ddwy gerdd a enwais. Gwelaf fod Melin Trefin, Y Sipsi, Fy Olwen I a Dysgub y Dail yn ddigon diogel rhwng y cloriau hefyd. Argraffwyd y gyfrol yn ddestlus ac y mae'r rhwymiad yn gadarn fel y gweddai i lyfr a gedwir am oes.

CYRDDAU'R HYDREF

Mawrth a Mercher, Hydref 27 a 28, 1953

— YN —

Y GRAIG, LLANDYSUL

Nos Fawrth am 6.30
Y Parchn. Aubrey Martin, B.A. a T. O. Williams, M.A.

Dydd Mercher am 10.30 a.m.—Pwyllgor y Gymdeithas.
Llywydd : Y Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.

2 o'r gloch : Pregethir gan y Parchn. S. E. Bowen a Lewis Williams.

6 o'r gloch : Pregethir gan y Llywydd a'r Parch. D. Jacob Davies.

Croeso i Bawb.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.